WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mawrth 2014
www.wao.gov.uk

# Rhaglen astudiaethau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol

## Papur briffio ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

# Cynnwys


Cyflwyniad 4

Trosolwg o waith sy’n mynd rhagddo 6

Pynciau posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol 8

Atodiadau

Atodiad 1 - Gwaith sy’n mynd rhagddo – cwmpas ac amserlenni arfaethedig 18

# Cyflwyniad

1 Mae'r papur hwn yn rhoi'r canlynol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor):

a y diweddaraf ar fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian[1] a gwaith archwilio arall sy'n mynd rhagddo a allai arwain at adroddiadau i'w hystyried gan y Pwyllgor rhwng nawr a haf 2015; a

b chyfle i nodi pynciau posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol.

2 Mae rhai o'r pynciau posibl a nodir yn y papur hwn yn ymdrin â materion y mae aelodau'r Pwyllgor eisoes wedi mynegi diddordeb ynddynt. Byddwn yn croesawu unrhyw safbwyntiau eraill sydd gan aelodau ar y pynciau hyn. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried hefyd p'un a oes unrhyw bynciau eraill o ddiddordeb yr hoffai ymdrin â hwy dros y 12 mis nesaf drwy ymchwiliad a arweinir gan y Pwyllgor ac a gaiff ei ategu gan femorandwm ffeithiol a baratoir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn hytrach nag astudiaeth gwerth am arian lawnach.

3 Er nad wyf wedi cyfeirio atynt yn benodol fel pynciau posibl i weithio arnynt yn y dyfodol, byddaf yn cadw golwg ar y prif ddatblygiadau sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus Cymru dros y tymor byr i'r tymor canolig, gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad diweddar 'Comisiwn Williams' ar wasanaethau cyhoeddus a materion yn ymwneud ag ad-drefnu gwasanaethau'r GIG a threfniadau llywodraethu cyrff y GIG.

4 Fel y bo angen, bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ystyried amrywiaeth o faterion sy'n codi o bryderon a ddaw i'm sylw drwy ohebiaeth. Mewn achosion o'r fath, byddaf yn ystyried a fyddai archwilio'r materion hyn yn fanylach a llunio adroddiadau ffurfiol arnynt o fudd i'r cyhoedd.

5 Gan ddefnyddio cynnwys y papur hwn, byddaf yn gwneud rhywfaint o waith ymgynghori ehangach ar fy nghynigion â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, cyrff archwilio, arolygu ac adolygu eraill a sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddaf hefyd yn gofyn am sylwadau gan bwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. Yn benodol, byddaf yn ceisio cadarnhau unrhyw orgyffwrdd posibl â chynlluniau'r pwyllgorau eu hunain a nodi cyfleoedd i astudiaethau lywio eu gwaith.

6 Wrth lunio'r cynlluniau terfynol, byddaf, yn ôl fy arfer, yn ystyried faint o waith sydd eisoes yn mynd rhagddo a'i amrywiaeth er mwyn: cadw rhaglen gytbwys mewn meysydd polisi gwahanol; cynnwys astudiaethau sy'n galw am lefelau gwahanol o adnoddau fel rhan o'm rhaglen; a sicrhau ffrwd reolaidd o ddeunydd i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor ei hun.

1 Mae'r astudiaethau hyn yn ystyried materion yn ymwneud â darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna Llywodraeth Cymru, y cyrff cyhoeddus a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig o'u hadnoddau i gyflawni eu swyddogaethau.

7 Rwyf yn ceisio cynhyrchu rhwng 10 a 12 o allbynnau bob blwyddyn i ategu gwaith y Pwyllgor. Hyd yma yn 2013-14, rwyf wedi cyflwyno 11 o adroddiadau neu femoranda i'r Pwyllgor a chaiff dau adroddiad arall eu cyhoeddi erbyn diwedd y mis hwn[2]. Paratowyd dau o'r allbynnau hyn ar gais y Pwyllgor - y memorandwm ar dâl uwch reolwyr a'r memorandwm ar wasanaeth awyr o fewn Cymru. Mae hyn oll yn ychwanegol at nifer o adroddiadau cryno arall ar faterion llywodraeth leol nad yw'r Pwyllgor wedi'u hystyried yn ffurfiol ac adroddiadau er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd gan fy Archwilydd Penodedig ar gyfer llywodraeth leol sy'n llywio ymchwiliad y Pwyllgor i dâl uwch reolwyr.

2 *Gofal Iechyd Parhaus; Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Cyllid Iechyd; Gofal heb ei Drefnu; Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon; Cyllid Addysg Uwch; Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc; Fferm Bysgod Penmon; Gwasanaeth Awyr o fewn Cymru - Caerdydd i Ynys Môn; Tâl Uwch Reolwyr; Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n Wynebu Llywodraeth Leol.* Mae'r ddau adroddiad a gaiff eu cyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn yn ymdrin â *Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru* a *Rheoli Cyflyrau Cronig.*

# Trosolwg o waith sy'n mynd rhagddo


8 Mae Ffigur 1 yn nodi'r gwaith sylweddol sydd eisoes yn mynd rhagddo y disgwyliaf lunio adroddiadau arno rhwng nawr a haf 2015 a fyddai ar gael i'r Pwyllgor eu hystyried. Mae'r gwaith hwn yn ychwanegol at y gwaith archwilio ariannol ac archwilio perfformiad lleol y cyhoeddir adroddiadau arno ar gyfer cyrff unigol a archwilir. Mae'r gwaith archwilio lleol hwnnw yn cynnwys cynlluniau i gynnal adolygiad dilynol o drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chaiff yr adroddiad, unwaith eto, ei lunio ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Ymhlith y gwaith archwilio lleol arall sy'n mynd rhagddo yn y GIG, mae adolygiadau o waith codio clinigol a nyrsio cymunedol. Ar ôl cwblhau'r gwaith lleol hwnnw, byddaf yn ystyried a fydd yn briodol llunio adroddiad cryno ar gyfer Cymru gyfan ar bob pwnc.

9 Rhydd Atodiad 1 ragor o fanylion am y gwaith a ddisgrifir yn Ffigur 1 a syniad o amserlenni adroddiadau. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn ar gam cynnar yn ei ddatblygiad o hyd a bydd y rhaglen yn newid, er enghraifft, mewn ymateb i ddatblygiadau polisi newydd neu er mwyn osgoi'r perygl o ddyblygu gwaith adolygiadau eraill.

10 Pan gyflwynais fy niweddariad i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2013, dywedais fod un o'r darnau o waith archwilio ymatebol a oedd yn mynd rhagddo yn ymwneud â Chydwasanaeth Adnoddau/Canolfan Ddata Blaenafon lle roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Mynwy a Heddlu Gwent yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau TG ar y cyd. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru bellach wedi gorffen eu hasesiad o'r modd y cafodd y ganolfan hon ei sefydlu a'i threfniadau rheoli a llywodraethu. Fodd bynnag, mae nawr yn debygol y caiff canlyniadau'r gwaith hwn eu cofnodi mewn adroddiad lleol i'r cyrff dan sylw.

11 Rwyf hefyd wedi penderfynu gohirio fy astudiaeth arfaethedig o berfformiad addysgol ac amddifadedd. Gwneuthum hyn am fod y pwnc hwn wedi cael cryn sylw mewn gwaith adolygu arall, gan gynnwys gwaith diweddar gan Estyn a'r ymchwiliad y mae Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gynnal i ddeilliannau addysgol plant o gartrefi incwm isel. Fodd bynnag, byddaf yn cadw'r pwnc hwn mewn cof fel rhan o'm gwaith monitro parhaus.

## Ffigur 1 - Gwaith sy'n mynd rhagddo




Nodiadau

Nid y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw prif gynulleidfa fwriadedig fy astudiaethau llywodraeth leol nac adroddiadau er budd y cyhoedd fy archwilydd penodedig ar gyfer llywodraeth leol. Serch hynny, mae'n debygol y bydd gan aelodau'r Pwyllgor ddiddordeb yn yr adroddiadau hyn ac, yn dibynnu ar eu cwmpas, gallant o bosibl lywio rhaglen waith y Pwyllgor ei hun.

# Pynciau posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol

12 Mae Ffigur 2 yn rhestru amrywiaeth eang o bynciau yr ydym wedi bod yn eu hystyried fel rhan o waith i nodi astudiaethau gwerth am arian posibl yn y dyfodol ac yn dangos sut mae'r pynciau hyn yn cyd-fynd â rhai o themâu allweddol strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013-2016. Mae'r pynciau sy'n bosibiliadau cadarnach, yn fy marn i, i ddechrau gweithio arnynt yn 2014-15 wedi'u cynnwys ar ben y rhestr ym mhob adran.

13 Yn ychwanegol at y rhestr hon, rwyf eisoes wedi hysbysu'r Pwyllgor fy mod yn bwriadu llunio adroddiad arall ar gyllid iechyd. Fel fy adroddiad ym mis Gorffennaf 2013, bydd yr adroddiad hwn yn ystyried cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Rwyf hefyd wedi cytuno â'r Pwyllgor i lunio memorandwm dilynol byr ar Ofal Iechyd Parhaus er mwyn ategu gwaith craffu pellach gan y Pwyllgor ar y mater hwn yn ystod hydref 2014. Yn ogystal, mewn ymateb i adroddiad diweddar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae Prif Weithredwr AGIC wedi gofyn i mi gynnal adolygiad o effeithiolrwydd cyffredinol AGIC a'i gyflawniad yn erbyn ei gynllun gweithredol ar gyfer 2014-15. Rwyf yn bwriadu cynnwys adolygiad o'r fath yn fy rhaglen o astudiaethau newydd a fydd yn dechrau yn 2014-15. Byddai hwn, wrth gwrs, yn ddibynnol ar unrhyw gamau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i adolygu swyddogaethau AGIC mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

14 Mewn rhai achosion, nid yw'r holl bynciau a nodais yn fy rhestr gyfatebol i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2013 wedi'u cynnwys mwyach yn y papur hwn. Efallai eu bod wedi'u hepgor am fod Swyddfa Archwilio Cymru yn buddsoddi adnoddau yn y pynciau hyn mewn ffyrdd eraill heblaw am astudiaethau gwerth am arian, neu am fod y pwnc wedi cael sylw fel rhan o waith adolygu diweddar arall. Er enghraifft:

a Cyfeiriais yn flaenorol at y posibilrwydd o edrych ar Cyllid Cymru. Fodd bynnag, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi comisiynu adolygiad o argaeledd cyllid i fusnesau bach a chanolig, ac mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol wedi lansio ymchwiliad sy'n ymdrin â Cyllid Cymru.

b Cyfeiriais yn flaenorol at y posibilrwydd o gynnal adolygiad o drefniadau rheoli adeiladau yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, roeddwn yn ymwybodol ar y pryd o adolygiad y Pwyllgor Cyllid o drefniadau rheoli asedau a oedd yn gwneud gwaith dilynol ar faterion a godwyd o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau *Rheoli Adeiladau* ym mis Mai 2010. Mae materion yn ymwneud â rheoli adeiladau wedi cael cryn sylw hefyd yn ein gwaith diweddar ar gyfnewid arfer da. Serch hynny, rwyf wedi cynnwys cynnig i gynnal archwiliad mwy penodol o stad y GIG.

15 Rwyf hefyd wedi ymgynghori'n ddiweddar ar gynnwys fy rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol ar gyfer 2014-15. Mae'r pynciau yr ymgynghorwyd arnynt yn cynnwys:

a Adolygiad 'cyflawni â llai' sy'n ystyried sut mae cynghorau yn parhau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol â llai o adnoddau. Gan ganolbwyntio ar wasanaethau hamdden, gwasanaethau rheoleiddio/gorfodi/cynllunio, neu wastraff.

b Adolygiad sy'n ystyried p'un a yw cynghorau yn gweithio'n effeithiol i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, gan gynnwys drwy waith cydlynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

c Astudiaeth o sut mae cynghorau yn diwallu anghenion sipsiwn a theithwyr yng Nghymru, yng nghyd-destun fframwaith polisi 'Teithio at Ddyfodol Gwell' Llywodraeth Cymru.

ch Astudiaeth o fuddsoddiad cynghorau mewn gwaith i wella cysylltiadau trafnidiaeth, yn benodol y seilwaith priffyrdd lleol.

d Adolygiad o wasanaethau datblygu economaidd cynghorau a'u heffaith wrth helpu i atgyfnerthu economi Cymru.

dd Adolygiad o wasanaethau ailgylchu gwastraff ac atal gwastraff cynghorau, sy'n gwneud gwaith dilynol ar faterion a gododd o'm hadroddiad ym mis Chwefror 2012, sef *Cyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff*.

16 Ym mis Gorffennaf 2013, cafodd y Pwyllgor gadarnhad ynghylch fy nghynlluniau i wneud rhagor o waith ar drefniadau rheoli meddyginiaethau drwy fy rhaglen o waith archwilio lleol ar draws y GIG. Ar ôl fy adolygiad o bresgripsiynau gan feddygon teulu, bydd y gwaith newydd yn canolbwyntio ar drefniadau rheoli meddyginiaethau yn y sector aciwt. Drwy'r gwaith archwilio lleol hwn, rwyf hefyd yn debygol o adolygu effeithiolrwydd trefniadau cyrff y GIG i reoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol a gwneud rhywfaint o waith diagnostig lefel uchel i asesu p'un a yw pwysau cyllidebol yn effeithio ar allu ac adnoddau o fewn timau gwybodeg cyrff y GIG a'r seilwaith TG.

## Ffigur 2 - Pynciau a ystyrir ar gyfer gwaith gwerth am arian yn y dyfodol

| A – Ymgymryd â gwaith gwerth am arian â phwyslais ar galedi<br>B – Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da<br>C – Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd<br>CH – Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| **Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol** | | | | |
| **Rhaglen gwybodeg GIG Cymru**<br>Sefydlwyd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) ym mis Ebrill 2010. Gan weithio gyda chyrff y GIG a meddygfeydd, mae NWIS yn gyfrifol am ddatblygu cynhyrchion cenedlaethol newydd, fel y 'prif fynegai cleifion' sy'n cysylltu cofnodion adnabod cleifion ar amrywiaeth o systemau gwybodaeth, a darparu gwasanaethau technoleg a gwybodaeth gweithredol. Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried perfformiad cyffredinol NWIS, gan gynnwys ystyried p'un a gaiff cynhyrchion cenedlaethol newydd o ansawdd eu darparu yn unol â'r gyllideb a'r amserlen. Ynghyd â'r cynnig isod ar gydwasanaethau'r GIG a chan ymestyn, o bosibl, i gynnwys Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, efallai y byddaf yn penderfynu cynnal astudiaeth ehangach o drefniadau llywodraethu a darparu'r tri sefydliad hyn. | | • | • | |
| **Cydwasanaethau'r GIG**<br>Cafodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) ei lansio ym mis Ebrill 2011 a'i sefydlu fel corff a weinyddir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar 1 Mehefin 2012. Mae NWSSP bellach yn cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau contractwyr gofal sylfaenol, caffael, rheoli cyfleusterau, cyflogaeth, materion cyfreithiol a risg, ac archwiliadau mewnol. Mae'r bartneriaeth yn dylanwadu ar swm sylweddol o wariant y GIG. Er enghraifft, nododd y bartneriaeth iddi brosesu gwerth mwy nag £1 biliwn o archebion am nwyddau a gwasanaethau ar gyfer ysbytai a gwasanaethau cymunedol y GIG yn 2012-13. Byddai'r astudiaeth a gynigir yn rhoi asesiad annibynnol o berfformiad y bartneriaeth wrth symleiddio swyddogaethau cefn swyddfa, sicrhau'r gwerth mwyaf o wariant y GIG, a gwella'r gwasanaethau a ddarperir. | • | • | • | |
| **Rheoli ystad y GIG**<br>Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried rheolaeth gyffredinol ystad y GIG yng Nghymru ac yn mynd ar drywydd materion a gododd o'm hadroddiad ym mis Gorffennaf 2013, sef *Cyllid Iechyd*, a nododd fod cyrff y GIG yn ei chael hi'n anodd cynnal a chadw adeiladau presennol ac asedau eraill sy'n golygu bod problemau'n crynhoi i'r dyfodol. Gallai astudiaeth yn y maes hwn hefyd ystyried p'un a yw buddsoddiad mewn adeiladau newydd a/neu well yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig, er enghraifft, o ran effeithlonrwydd ynni gwell. | • | • | | • |

| A – Ymgymryd â gwaith gwerth am arian â phwyslais ar galedi<br>B – Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da<br>C – Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd<br>CH – Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| **Gwerth am arian a gynigir gan gontractau gofal sylfaenol**<br>Yn 2012-13, gwariodd y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru fwy na £800 miliwn ar wasanaethau gofal iechyd sylfaenol - gwasanaethau meddygol cyffredinol, gwasanaethau fferyllol, gwasanaethau deintyddol cyffredinol a gwasanaethau offthalmig cyffredinol - heb gynnwys cyfarpar a chyffuriau ar bresgripsiwn. Gwasanaethau meddygol cyffredinol oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwariant hwn, tua £460 miliwn. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried materion gwerth am arian mewn perthynas â gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol. Yn ystod ei ymchwiliad cyfredol i ofal heb ei drefnu, mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth ynglŷn â newidiadau i'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol yn 2014-15 a byddai'r astudiaeth hon yn gyfle i wneud gwaith dilynol ar faterion sy'n codi o'r dystiolaeth honno ac adroddiad blaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol ym mis Awst 2007. | • | • | | |
| **Dyfodol cynaliadwy** | | | | |
| **Trechu tlodi tanwydd/hyrwyddo effeithlonrwydd ynni cartrefi**<br>Er gwaethaf targed Llywodraeth Cymru i gael gwared ar dlodi tanwydd erbyn 2018, yn 2012, amcangyfrifwyd bod 30 y cant o aelwydydd yng Nghymru (386,000 o aelwydydd) yn profi tlodi tanwydd a bod 'aelwydydd agored i niwed' - y rhai sy'n cynnwys person hŷn neu blentyn - yn fwy tebygol o brofi tlodi tanwydd. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried effeithiolrwydd ymdrechion Llywodraeth Cymru i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi a lleihau tlodi tanwydd, er enghraifft, drwy gynlluniau mawr fel Arbed a NYTH. | • | • | | • |
| **Adfywio Cymru - lleoedd llewyrchus llawn addewid**<br>Ym mis Mawrth 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru ei fframwaith adfywio newydd, sef Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Bwriedir i'r fframwaith newydd ysgogi arian o ffynonellau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, a darparu dull gwahanol o adfywio drwy gefnogi ymyriadau mwy penodol. Er mwyn helpu i gyflawni'r fframwaith, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £100 miliwn dros dair blynedd o 2014, ar draws 11 o ardaloedd awdurdodau lleol. Gallai astudiaeth yn y maes hwn ystyried p'un a yw'r fframwaith, drwy ei ddatblygiad, ei gynllun a chamau cychwynnol i'w roi ar waith, yn debygol o gyflawni amcanion adfywio Llywodraeth Cymru. | • | | • | • |
| **Rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu**<br>Byddai astudiaeth yn y maes hwn yn asesu sut mae Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac awdurdodau lleol yn rheoli peryglon sy'n deillio o lifogydd ac erydu ac yn blaenoriaethu ac yn dyrannu gwariant cysylltiedig. Byddai'r astudiaeth hon yn gyfle i wneud gwaith dilynol ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Hydref 2009 ar *Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru* ac ystyried sut mae newidiadau yn yr hinsawdd yn dylanwadu ar y modd y caiff y perygl o lifogydd ac erydu ei reoli. Wrth bennu union gwmpas ac amseriad astudiaeth yn y maes hwn, byddai angen ystyried gwaith adolygu sydd eisoes yn mynd rhagddo mewn ymateb i'r llifogydd arfordirol diweddar a gwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen fuddsoddi sengl. | | • | • | • |

| A – Ymgymryd â gwaith gwerth am arian â phwyslais ar galedi<br>B – Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da<br>C – Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd<br>CH – Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| **Stiwardiaeth Llywodraeth Cymru o'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth**<br>Mae cael y budd mwyaf drwy stiwardiaeth amgylcheddol dda o'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth yn hanfodol o ran cynaliadwyedd ac o ran budd economaidd a, gan ystyried rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol, gallai astudiaeth yn y maes hwn ystyried i ba raddau y caiff y materion hyn eu prif ffrydio ar draws gweithgarwch Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach, gyda chyfrifoldeb clir am ganlyniadau cysylltiedig. | | | • | • |
| **Gwaith Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer clefydau anifeiliaid a'i hymateb iddynt**<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyllidebu £38 miliwn yn 2014-15 ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid gyda'r nod o amddiffyn y cyhoedd yn well rhag clefydau anifeiliaid a gwella gallu'r diwydiant ffermio yng Nghymru i wrthsefyll achosion o glefydau anifeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu ymgynghori ar Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid newydd i Gymru sy'n ymdrin â'r materion hyn. Byddai astudiaeth yn y maes hwn yn ystyried tystiolaeth o werth am arian y gwariant hwn yn gyffredinol ac yn rhoi sylw cynnar i ddatblygiad a gweithrediad y fframwaith newydd, gan ystyried hefyd effaith y cynlluniau i gau rhai labordai profi clefydau anifeiliaid yng Nghymru. | • | | | • |
| **Llywodraeth leol a chymunedau** | | | | |
| **Gwaith dilynol ar raglen Cymunedau yn Gyntaf**<br>Nododd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Gorffennaf 2009 ar Cymunedau yn Gyntaf wendidau o ran y graddau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cymryd rhan yn y rhaglen. Mae'r rhaglen bellach yn ganolog i gamau i weithredu'r Strategaeth Trechu Tlodi ac mae llwyddiant yr elfen allweddol hon o bolisi Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar Cymunedau yn Gyntaf i 'blygu' rhaglenni'n fwy effeithiol.Ar yr un pryd, mae'r gyllideb flynyddol o tua £40 miliwn yn debygol o leihau.Gallai astudiaeth yn y maes hwn ganolbwyntio'n bennaf ar elfennau plygu rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf a byddai'n gyfle i wneud gwaith dilynol ar faterion a godwyd o adroddiad blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru. | | • | • | • |
| **Arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru o ddiwygiadau i wasanaethau cyhoeddus**<br>Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu'r her ddwbl o lai o arian a galw cynyddol/newidiol. Mae prif elfennau'r diwygiadau i wasanaethau cyhoeddus yn cynnwys cymorth rhaglen i Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus, Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, a gweithredu Adolygiad Simpson.Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried effeithiolrwydd cyffredinol arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru o ddiwygiadau i wasanaethau cyhoeddus gyda'r nod o lunio cyfres o allbynnau amser real gan ddefnyddio dull dysgu gweithredol. | • | | • | |
| **Gweithio gyda'r trydydd sector**<br>Penderfynais ohirio astudiaeth yn y maes hwn yn flaenorol ac, ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi craffu cryn dipyn ar faterion sy'n ymwneud yn benodol â rheoli grantiau. Ni fyddai astudiaeth yn y maes hwn yn y dyfodol yn canolbwyntio ar reoli grantiau ond, yn hytrach, byddai'n ystyried tystiolaeth o'r graddau y gall y trydydd sector ddarparu gwasanaeth cyhoeddus o'r un ansawdd neu ansawdd gwell am gost is a'r graddau y mae'n gwneud hynny'n barod. Gallai'r astudiaeth geisio mesur, mewn termau ariannol, gyfraniad cyffredinol y trydydd sector mewn meysydd gwasanaeth penodol. | • | • | | • |

| A – Ymgymryd â gwaith gwerth am arian â phwyslais ar galedi<br>B – Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da<br>C – Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd<br>CH – Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| **Yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth** | | | | |
| **Gwasanaethau bysiau a thocynnau teithio rhatach**<br>Yn sgil newidiadau i drefniadau ariannu gwasanaethau bysiau, cyfunwyd y cyn-Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau, y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol a'r Fenter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol i greu un Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol gwerth tua £25 miliwn yn 2013-14. Yn ogystal, daw'r cytundeb tair blynedd presennol rhwng Llywodraeth Cymru a gweithredwyr bysiau o ran lefel yr ad-daliadau o dan y cynllun tocynnau teithio rhatach i ben ar 31 Mawrth 2014. Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried effaith y newidiadau ariannol ar wasanaethau bysiau yng Nghymru ac amcanion teithio cynaliadwy Llywodraeth Cymru. | • | • | | • |
| **Ardaloedd menter**<br>Sefydlodd Llywodraeth Cymru saith ardal fenter ym mis Ebrill 2013 - Ynys Môn, Caerdydd, Glannau Dyfrdwy, Glynebwy, Dyfrffordd y Ddau Gleddau (Sir Benfro), Llanbedr (Gwynedd) a Sain Tathan. Mae gan bob ardal fwrdd cynghori a arweinir gan fusnesau ac fe'u hanelir at sector penodol (awyrofod, ynni a'r amgylchedd, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol neu weithgynhyrchu uwch). Nid oes gan yr ardaloedd menter unrhyw gyllideb ddynodedig heblaw am gyllideb farchnata fach ac £20 miliwn sydd ar gael dros bum mlynedd drwy ostyngiadau mewn ardrethi busnes. Nododd adroddiad gan Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2013 nad oedd gan yr ardaloedd gynlluniau nac amcanion strategol cyhoeddedig na dangosyddion perfformiad a bod lefel yr adnoddau yn aneglur. Gallai astudiaeth gwerth am arian yn y maes hwn yn y dyfodol ystyried perfformiad yr ardaloedd menter a'r buddiannau sy'n dod i'r amlwg, gan gymharu datblygiad yr ardaloedd menter yng Nghymru â rhai yn Lloegr. | | • | • | |
| **Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA)**<br>Sefydlwyd rhwydwaith PSBA i ddarparu llwyfan gwybodaeth a chyfathrebu cenedlaethol gyda'r nod o alluogi gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio a bod yn fwy effeithlon er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau gwell. Ym mis Gorffennaf 2013, cadarnheais gynlluniau ar gyfer astudiaeth a fyddai'n ystyried PSBA. Fodd bynnag, nodais hefyd y gallai'r astudiaeth hon ymestyn i ystyried materion ehangach o ran buddsoddi yn y seilwaith band eang ac, ers hynny, rwyf wedi penderfynu y dylai'r astudiaeth arfaethedig honno ganolbwyntio ar y gwaith o gyflwyno Cyflymu Cymru (Atodiad 1). Ar ôl i'r contract i gynnal a chadw rhwydwaith PSBA gael ei aildendro, byddaf yn pwyso a mesur opsiynau am astudiaeth i ystyried p'un a yw gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni buddiannau disgwyliedig rhwydwaith PSBA. | • | • | • | |
| **Buddsoddiad cyhoeddus mewn hyrwyddo twristiaeth/digwyddiadau eiconig**<br>Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Digwyddiadau Cymru: Strategaeth Digwyddiadau Mawr ar gyfer Cymru 2010-2020.* Byddai'r astudiaeth a gynigir yn ystyried effeithiolrwydd yr Uned Digwyddiadau Mawr wrth weithredu strategaeth 2010, gan ddefnyddio tystiolaeth berthnasol gan gynnwys gwerthusiad o effaith economaidd Cwpan Ryder 2010. Gallai'r astudiaeth gael ei hymestyn i ystyried, yn fwy cyffredinol, y gwaith a wneir o dan fantell Croeso Cymru. Ni fyddai'r astudiaeth yn ystyried mewnfuddsoddi, sy'n destun ymchwiliad ar hyn o bryd gan Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol. | | • | | • |

| A – Ymgymryd â gwaith gwerth am arian â phwyslais ar galedi<br>B – Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da<br>C – Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd<br>CH – Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg a sgiliau** | | | | |
| **Consortia addysg rhanbarthol**<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi annog awdurdodau addysg lleol i ddatblygu trefniadau cydweithio ar sail pedwar consortia rhanbarthol. Byddai astudiaeth yn y maes hwn yn ystyried trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol yn y pedwar consortia ac yn ystyried a yw'r consortia mewn sefyllfa dda i ymateb i bolisïau addysg Llywodraeth Cymru. Gallai'r astudiaeth ategu gwaith y mae Estyn yn ei wneud i archwilio'r cynnydd y mae'r consortia yn ei wneud a datblygu fframwaith i arolygu'r consortia. Caiff fy ngwaith ei gyflawni mewn ffordd sy'n ymateb i ddatblygiadau sy'n dod i'r amlwg ac yn rhoi adborth amser real arnynt. | | • | • | |
| **Cyllid addysg uwch**<br>Mae'r sector addysg bellach wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil datblygu partneriaethau 14-19 a sawl achos o uno colegau. Disgwylir i ostyngiadau yng nghyllideb Llywodraeth Cymru gael effaith anghymesur ar addysg ôl-19 sy'n cynnwys cynrychiolaeth uwch o fyfyrwyr benywaidd. Gallai'r astudiaeth hon ystyried sefyllfa ariannol gyffredinol y sector addysg bellach a threfniadau cynllunio a rheoli ariannol y sector, yn ogystal ag effaith newidiadau strwythurol diweddar ar draws y sector a gostyngiadau ariannol gan Lywodraeth Cymru. | • | • | | • |
| **Lleoedd mewn ysgolion**<br>Cyfeiriodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010, sef *Buddsoddi Cyfalaf mewn Ysgolion*, at fethiant rhai awdurdodau lleol i reoli lleoedd gwag ac ad-drefnu ysgolion. Araf fu awdurdodau lleol i wneud cynnydd o ran lleoedd gwag ledled Cymru ac mae'r darlun yn dod yn fwyfwy cymhleth gan fod y galw am leoedd cynradd yn cynyddu mewn rhai rhannau o Gymru tra bod y boblogaeth yn lleihau mewn rhannau eraill. Yng nghyd-destun cynlluniau buddsoddi cyfalaf parhaus drwy'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, byddai'r adroddiad hwn yn ystyried sut mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn rheoli'r mater o leoedd mewn ysgolion, ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Ymhlith materion penodol eraill y gallai'r astudiaeth ymdrin â hwy mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ysgolion ffydd ac effaith teithio i'r ysgol. | • | • | | • |
| **TGCh mewn ysgolion**<br>Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried materion yn ymwneud â'r ddarpariaeth TGCh mewn ysgolion. Er enghraifft, ym mis Ionawr 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad o bron £40 miliwn i wella cysylltiadau â'r rhyngrwyd mewn ysgolion er mwyn eu helpu i gael gafael ar adnoddau dysgu ar-lein eraill. Heblaw am hyn, gallai'r astudiaeth hefyd geisio nodi arbedion ariannol posibl mewn perthynas â buddsoddiad ysgolion mewn caledwedd a meddalwedd TGCh ac unrhyw anghydraddoldeb rhwng ysgolion yng Nghymru o ran eu mynediad at dechnoleg fodern. | • | • | | • |
| **Perfformiad addysgol ac amddifadedd**<br>Ar ôl penderfynu gohirio fy astudiaeth yn y maes hwn am y rhesymau a nodwyd ym mharagraff 11, byddaf yn ystyried cyfleoedd i wneud gwaith pellach yn y maes hwn yn 2015-16. | | • | | • |

| A – Ymgymryd â gwaith gwerth am arian â phwyslais ar galedi<br>B – Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da<br>C – Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd<br>CH – Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg i Oedolion**<br>Mae'r rhaglen Cymraeg i Oedolion yn rhoi cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg, boed hynny yn eu cymunedau lleol, yn eu gweithleoedd neu gyda'u teuluoedd. Ym mis Gorffennaf 2013, nododd adolygiad diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fod diffyg data ynglŷn â deilliannau a dilyniant dysgwyr. Ymhlith pethau eraill, argymhellodd yr adroddiad y dylid sefydlu corff cenedlaethol newydd i ddarparu arweinyddiaeth strategol, lleihau achosion o ddyblygu a sicrhau cysondeb a lleihad yn nifer y darparwyr. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gostwng ei chyllideb ar gyfer dysgu Cymraeg 8 y cant rhwng 2014-15 a 2015-16 (o £15.5 i 14.5 miliwn). Byddaf yn cadw golwg ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad diweddar er mwyn helpu i flaenoriaethu fy ngwaith a fydd yn dechrau yn 2015-16. | • | | | • |
| **Cyllid ysgolion**<br>Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru *Dadansoddiad o Gyllid Ysgolion* ym mis Mawrth 2006 ac yn dilyn hynny, cyhoeddwyd cyfres o adroddiadau eraill yn y maes hwn gan Bwyllgor Ariannu Ysgolion y Cynulliad Cenedlaethol a'r Pwyllgor Menter a Dysgu gynt. Mae cyllid ysgolion yn parhau i beri pryder i ysgolion ac undebau sy'n honni bod ysgolion Cymru yn cael llai o arian nag ysgolion yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu gwariant ar ysgolion o leiaf 1 y cant yn uwch na'i grant bloc. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried p'un a yw systemau ariannu ysgolion wedi dod yn fwy clir dros y blynyddoedd diwethaf a ph'un a ydynt yn cefnogi gwelliant. | • | • | | • |
| **Ar draws y sector cyhoeddus** | | | | |
| **Gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn**<br>Er i mi ymgynghori'n ddiweddar ar y posibilrwydd o gynnal astudiaeth llywodraeth leol yn y maes hwn (paragraff 15), credaf fod cyfle i weithredu fesul cam yn y maes hwn, neu uno archwiliad o gamau gweithredu lleol ag adolygiad cenedlaethol er mwyn rhoi ystyriaeth gynnar i gamau i gyflawni'r 'Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru: 2013-2023'. Byddai uno'r ddwy ffrwd hyn o waith yn efelychu'r camau rwyf wedi'u cymryd i ddwyn ynghyd fy astudiaethau llywodraeth leol a gwerth am arian cyfredol ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. | • | • | | • |
| **Caffael cyhoeddus a'r gwasanaeth caffael cenedlaethol**<br>Mae Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru (y Gwasanaeth), a lansiwyd ym mis Tachwedd 2013, yn rheoli contractau ar gyfer gwariant cyffredin ac ailadroddus ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a'i nod yw arbed £25 miliwn y flwyddyn drwy leihau gwariant, cael gwared ar achosion o ddyblygu, datblygu model caffael cynaliadwy a gwella effeithlonrwydd. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn bwriadu datblygu cadwyni cyflenwi lleol er mwyn helpu busnesau yng Nghymru i fanteisio ar y £4 biliwn y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei wario bob blwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau. Byddai astudiaeth gwerth am arian o'r gwasanaeth hwn yn adolygu ei ddatblygiad cynnar a thystiolaeth o gynnydd wrth gyflawni ei nodau a'i amcanion strategol. | • | • | | • |

| A – Ymgymryd â gwaith gwerth am arian â phwyslais ar galedi<br>B – Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da<br>C – Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd<br>CH – Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**<br>Mae Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi yn amlinellu blaenoriaethau buddsoddi strategol Llywodraeth Cymru a'i dull o fuddsoddi mewn seilwaith. Mae tua £3.5 biliwn wedi'i ddyrannu i'r cynllun rhwng 2012 a 2015 a disgwylir £15 biliwn o fuddsoddiad pellach dros y 10 mlynedd canlynol. Byddai astudiaeth yn y maes hwn, yn gyntaf oll, yn rhoi sylw lefel uchel i gamau cyffredinol Llywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun a chynnydd a threfniadau ariannu prosiectau allweddol. Un o'r prosiectau sy'n rhan o'r cynllun yw Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru (Cyflymu Cymru) yr wyf eisoes yn canolbwyntio arno fel rhan o'm hastudiaeth annibynnol o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn seilwaith band eang. | • | | • | • |
| **Y defnydd o TGCh a datblygu cynaliadwy**<br>Byddai astudiaeth yn y maes hwn yn ystyried sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli'r defnydd o TGCh yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, gallai'r astudiaeth ystyried trefniadau caffael cyfarpar TGCh a chadwyni cyflenwi, camau a gymerir gan gyrff cyhoeddus i leihau effaith amgylcheddol eu defnydd o TGCh, cyfleoedd i leihau teithiau staff drwy ddefnyddio TGCh a materion yn ymwneud â gwastraff a gwaredu cyfarpar. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried y costau cyffredinol yr eir iddynt gan gyrff cyhoeddus wrth gaffael, defnyddio a gwaredu cyfarpar TGCh a chyfleoedd i wneud arbedion ariannol. | • | • | | • |
| **Gwella iechyd y cyhoedd**<br>Byddai'r archwiliad hwn yn ystyried pa un yw'r sector cyhoeddus yn gwneud digon i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym maes iechyd ac annog pobl i fyw bywydau mwy egnïol ac iach. Gallai archwilio themâu penodol fel rhoi'r gorau i ysmygu a gordewdra er mwyn canfod faint o gysylltiad sydd rhwng camau gweithredu cenedlaethol a lleol ac asesu effaith gyffredinol y materion hyn ar wasanaethau cyhoeddus. Yn y tymor byr, mae iechyd y cyhoedd yn debygol o fod yn elfen amlwg o'r astudiaeth a gynigir gennyf o ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad y cyhoedd. | | • | | • |
| **Cydymffurfiaeth â dyletswyddau deddfwriaethol allweddol/parodrwydd ar eu cyfer (cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy)**<br>Rwyf yn ystyried cyfleoedd i wneud gwaith yn y maes hwn, er enghraifft yng nghyd-destun gwaith Llywodraeth Cymru i baratoi ei Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, a byddaf yn cynnal trafodaethau pellach â chomisiynwyr perthnasol ynghylch fy nghynlluniau yn hyn o beth a chyfleoedd i gydweithio. | | • | | • |
| **Gwasanaethau archwilio mewnol**<br>Mae gwasanaethau archwilio mewnol effeithiol yn helpu i werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a phrosesau llywodraethu sefydliadau a gall y sicrwydd a ddarperir gan wasanaeth archwilio mewnol cadarn arwain at arbedion effeithlonrwydd o ran gwaith archwilio allanol. Byddai'r adolygiad hwn yn cymharu gwasanaethau archwilio mewnol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru o ran eu cwmpas, costau ac ansawdd. Yn y GIG, mae gwasanaethau archwilio mewnol wedi'u cynnwys fel rhan o waith cydwasanaeth y GIG ac argymhellodd y Comisiwn diweddar ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y dylid datblygu cydwasanaethau ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan er mwyn cyflawni swyddogaethau cefn swyddfa a darparu gwasanaethau cyffredin fel archwiliadau mewnol. | | • | • | |

| A – Ymgymryd â gwaith gwerth am arian â phwyslais ar galedi<br>B – Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da<br>C – Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd<br>CH – Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| **Gweinyddiaeth llywodraeth ganolog** | | | | |
| **Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru**<br>Daeth CNC i rym ym mis Ebrill 2013 ac, fel sefydliad newydd, mae wedi ymgymryd â swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru; Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru gynt, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. CNC yw'r corff mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae ganddo tua 2000 o staff; cyllideb weithredu flynyddol o tua £179 miliwn a chyfrifoldeb am reoli saith y cant o arwynebedd tir Cymru. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried datblygiad cyffredinol CNC, gan gyfeirio at y costau, y buddiannau a'r risgiau a nodwyd yn yr achos busnes gwreiddiol dros ei greu. | | | • | • |
| **Rôl y comisiynwyr**<br>Rwyf yn awyddus i gynnal trafodaethau pellach â'r comisiynwyr amrywiol yng Nghymru ynglŷn â'm syniadau am astudiaeth a allai ystyried materion fel trefniadau i benodi comisiynwyr, eu cydberthynas â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, y dulliau gweithredu gwahanol a fabwysiadir gan gomisiynwyr er mwyn nodi arfer gorau wrth gyflawni eu cylch gwaith, trefniadau cyffredinol i reoli a llywodraethu gwaith y comisiynwyr, ac unrhyw gyfleoedd i resymoli swyddogaethau cefn swyddfa. Byddai angen i unrhyw waith yn y maes hwn ystyried yr adolygiad o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. | | • | • | • |
| **Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru**<br>Mae cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan y Llywodraeth ond yn gweithredu 'hyd braich' oddi wrthi. Ymhlith eraill, maent yn cynnwys CNC (y cyfeirir ato uchod), Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Gallai'r adolygiad hwn ystyried materion yn ymwneud â threfniadau llywodraethu cyffredinol ac atebolrwydd y cyrff hyn, gan gynnwys eu cydberthynas ag adrannau llywodraeth ganolog, yn ogystal â'u perfformiad a thystiolaeth o'u gwerth am arian. | | • | • | |
| **Gwasanaethau TGCh canolog Llywodraeth Cymru**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn gwario tua £30 miliwn y flwyddyn ar ei gwasanaethau TGCh canolog. Ym mis Mehefin 2012, llofnododd Llywodraeth Cymru gontract gwerth £70 miliwn gyda'i darparwr TGCh presennol, sef Atos (Siemens gynt), a fydd yn ymestyn y berthynas hirsefydlog rhyngddynt tan 2019. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried y mesurau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd fel rhan o'r contract i sicrhau gwerth am arian, gan gynnwys argymhellion dilynol a wnaed yn fy adroddiad ym mis Awst 2011 *Darparu gwasanaethau TGCh a phrosiectau TGCh o dan gontract Merlin.* | • | • | | |
| **Llywodraeth Cymru - capasiti a gallu**<br>Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried y mesurau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod ganddi'r gallu a'r capasiti i gyflawni ei rhaglen bolisi a'i rhaglen ddeddfwriaethol yn sgil lleihad diweddar yn y gweithlu. I ryw raddau, byddai astudiaeth o'r mater hwn yn adeiladu ar y sylw a roddwyd i Lywodraeth Cymru fel rhan o'm hastudiaeth gyfredol o doriadau i'r gweithlu ac ymadawiadau cynnar ar draws y sector cyhoeddus. | • | | • | • |

# Atodiad 1 - Gwaith sy'n mynd rhagddo - cwmpas ac amserlenni arfaethedig

Mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo a ddisgrifir yn yr atodiad hwn yn cyd-fynd â'r pynciau sydd wedi'u cyflwyno yn Ffigur 1 o'r papur briffio hwn ac sydd wedi'u rhoi yn eu cyd-destun ym mharagraff 8.

## Astudiaethau gwerth am arian, gwaith archwilio ymatebol ac adroddiadau cryno o archwiliadau perfformiad y GIG

| Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng nawr a Gorffennaf 2014 |
|---|
| **Strategaeth leoli Llywodraeth Cymru**<br>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Leoli yn 2002. Nod y strategaeth oedd datganoli gwasanaethau o Gaerdydd fel eu bod yn agosach at bobl Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried p'un a yw Rhaglen y Strategaeth Leoli wedi cyflawni ei hamcanion mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian. Canolbwyntiodd y rhaglen ar godi tri adeilad swyddfeydd newydd ym Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Roedd hefyd yn cynnwys adleoli swyddi a symud staff i swyddfeydd newydd.<br>**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee**<br>**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Andy Phillips** |
| **Rheoli cyflyrau cronig – adroddiad diweddaru**<br>Bydd yr adroddiad hwn, sy'n cyd-fynd â'm hadroddiad ym mis Medi 2013, *Gofal Heb ei Drefnu - diweddariad ar gynnydd*, yn ystyried p'un a yw byrddau iechyd yn rheoli cyflyrau cronig mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Bydd fy adroddiad yn cymharu'r sefyllfa ar hyn o bryd â'r sefyllfa a nodwyd yn flaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn *Rheoli Cyflyrau Cronig gan GIG Cymru* (Rhagfyr 2008).<br>**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas**<br>**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Tracey Davies** |
| **Cyllid strwythurol yr Undeb Ewropeaidd (2007-2013)**<br>Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried p'un a yw rhaglenni cyllid strwythurol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer 2007-2013 wedi'u gweinyddu'n effeithiol gan WEFO a ph'un a ydynt ar y trywydd cywir i gyflawni eu buddiannau arfaethedig, gan ystyried cynnydd yn erbyn targedau i ddyrannu cyllid, gwariant gwirioneddol ac allbynnau allweddol. Mae Cymru yn gymwys i gael tua €2.22 biliwn o raglenni cyllid strwythurol yr UE ar gyfer 2007-2013, sy'n anelu at leihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd rhwng rhanbarthau'r UE.<br>**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Ann-Marie Harkin**<br>**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Ben Robertson** |
| **Ariannu Canolfan Cywain yn y Bala drwy arian cyhoeddus**<br>Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried a oedd y penderfyniadau a wnaed gan y sector cyhoeddus yng Nghymru, o ran ariannu Canolfan Cywain yn y Bala a'r penderfyniad dilynol i'w chau, wedi darparu gwerth da am arian. Adeiladwyd Canolfan Cywain fel canolfan ar gyfer treftadaeth, bywyd gwledig a cherflunwaith a derbyniodd tua £3.5 miliwn o arian cyhoeddus o amrywiaeth o ffynonellau.<br>**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee**<br>**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Steve Ashcroft** |

## Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng nawr 2014 a Gorffennaf 2014

**Glastir - cynllun amaeth-amgylchedd**

Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried p’un a yw cynllun Glastir wedi ymgorffori’r gwersi a ddysgwyd o gynllun Tir Gofal a’r dystiolaeth o gynlluniau amaeth-amgylchedd eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwario £122 miliwn ar Glastir o’i lansiad yn 2012 nes diwedd 2015. Caiff y cynllun ei ariannu’n rhannol gan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Andy Phillips**

**Presgripsiynau gofal sylfaenol**

Mae gwaith archwilio lleol wedi ystyried trefniadau byrddau iechyd i hyrwyddo systemau presgripsiynu cost-effeithiol a diogel mewn gofal sylfaenol. Bydd yr adroddiad cryno hwn yn ystyried tueddiadau o ran gweithgarwch presgripsiynu ym maes gofal sylfaenol, trefniadau i reoli’r gweithgarwch presgripsiynu hwn a chyfleoedd i wella costau ac ansawdd.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Malcolm Latham**

**Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)**

Byddaf yn cyhoeddi dau adroddiad unigol ond ategol ar y pwnc hwn (adroddiad gwerth am arian ac adroddiad ar astudiaeth llywodraeth leol). Bydd yr adroddiad gwerth am arian yn canolbwyntio ar ddull Llywodraeth Cymru o leihau lefelau NEET a threfniadau i fonitro cynnydd ac asesu gwerth am arian, gan gyfeirio’n benodol at y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a’r Cynllun Gweithredu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2013.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Stephen Martin**

**Y Fenter Twyll Genedlaethol**

Bydd yr adroddiad hwn yn nodi canlyniadau ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2012-13. Ers iddi ddechrau yn 1996, mae ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol wedi arwain at nodi mwy na £22 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru a £939 miliwn ledled y DU.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Anthony Barrett**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Helen Pugh**

**Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio**

‘Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig’ o dan berchenogaeth lwyr Gweinidogion Cymru yw Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (CBCA), ond mae’n gweithredu hyd braich.

Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried nodau, trefniadau llywodraethu a gweithredu CBCA, gan gynnwys ei busnes buddsoddi parhaus, a hefyd effeithiolrwydd trefniadau goruchwylio Llywodraeth Cymru ar gyfer y gronfa. Un maes penodol fu’r ffordd yr aeth CBCA ati i waredu’r portffolio o dir ac eiddo a drosglwyddwyd iddi gan Lywodraeth Cymru ar y cychwyn. Bydd union amserlen yr adroddiad yn dibynnu ar ffactorau allanol.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Mike Usher**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Alastair McQuaid**

## Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng Awst a Rhagfyr 2014

### Gwasanaethau orthopedig

Mae'r galw am driniaeth orthopedig wedi cynyddu'n sylweddol am resymau sy'n cynnwys y boblogaeth sy'n heneiddio, lefelau cynyddol o ordewdra ac arferion clinigol gwell yn ogystal â disgwyliadau uwch ymhlith cleifion. Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried p'un a yw gwasanaethau orthopedig yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus a ph'un a gânt eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd gynaliadwy.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Anne Beegan**

### Lleihau'r gweithlu sector cyhoeddus/ymadawiadau cynnar

Mae'r astudiaeth hon yn ystyried i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gwneud defnydd o gynlluniau ymadael yn gynnar er mwyn cefnogi eu hymdrechion i reoli/lleihau costau'r gweithlu a chostau ac arbedion cysylltiedig cynlluniau o'r fath. Nod y gwaith yw nodi a rhannu arfer gorau mewn perthynas â chynlluniau ymadael yn gynnar a chamau eraill a gymerir gan gyrff cyhoeddus i reoli neu leihau costau'r gweithlu.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Matthew Mortlock**

### Asesiadau strwythuredig y GIG - adroddiad cryno ar drefniadau llywodraethu

Bob blwyddyn mae archwilwyr yn cynnal 'asesiad strwythuredig' o drefniadau llywodraethu cyrff y GIG sy'n eu helpu i wneud defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith hwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar strwythur ac effeithiolrwydd cyffredinol fframweithiau sicrwydd a threfniadau atebolrwydd cyrff y GIG, y defnydd o wybodaeth i ategu trefniadau llywodraethu da a gwelliant, a dysgu a thryloywder sefydliadol.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Carol Moseley**

### Camau Llywodraeth Cymru i gaffael Maes Awyr Caerdydd

Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried p'un a wnaeth Llywodraeth Cymru gaffael Maes Awyr Caerdydd mewn ffordd sy'n debygol o gyflawni'r buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bwriadedig. Bydd yn edrych ar ôl ar yr hyn a arweiniodd at y penderfyniad i brynu ond bydd hefyd yn ystyried p'un a oes trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau llwyddiant y maes awyr, gan ddefnyddio'n rhannol waith a wnaed gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Matthew Mortlock**

### Rhestrau aros y GIG

Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried p'un a yw'r GIG yng Nghymru yn rheoli amseroedd aros am driniaethau dewisol yn gadarn. Mae perfformiad yn erbyn targedau rhestrau aros wedi gwaethygu'n sylweddol ers 2009 ac nid yw Cymru'n cymharu'n dda â gwledydd eraill na rhannau tebyg o Loegr.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Steve Ashcroft**

## Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng Awst a Rhagfyr 2014

**Rhestrau aros y GIG a phractisau preifat - archwiliad ymatebol**

Yn ei adroddiad *Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran sicrhau'r manteision a fwriadwyd* ym mis Medi 2013, argymhellodd y Pwyllgor y dylwn ymchwilio i brosesau a gweithdrefnau'r byrddau iechyd lleol ar gyfer cleifion sy'n symud rhwng practisau preifat a phractisau'r GIG. Rwyf wrthi'n cynnal archwiliad ymatebol i'r mater penodol hwn, ar wahân i'm prif astudiaeth gwerth am arian o restrau aros, mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Anne Beegan**

## Gwaith arall sy'n mynd rhagddo - amserlen gyhoeddi i'w chadarnhau o hyd

**Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y seilwaith band eang**

Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar p'un a yw buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y seilwaith band eang i gartrefi a busnesau yn debygol o gyflawni'r buddiannau a fwriadwyd. Cyflymu Cymru, a reolir gan Lywodraeth Cymru, yw'r brif raglen ar gyfer darparu seilwaith band eang cyflym a dibynadwy ledled Cymru. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract Cyflymu Cymru i ddarparu'r seilwaith band eang i BT ym mis Gorffennaf 2012.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Stephen Martin**

**Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad y cyhoedd**

Nid yw union gynnwys yr astudiaeth hon wedi'i gadarnhau eto. Fodd bynnag, bydd yn ystyried p'un a yw gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn darparu gwerth am arian drwy eu hymdrechion i newid ymddygiad y cyhoedd. Bydd hon yn astudiaeth drawsbynciol a fydd yn edrych ar amcanion polisi amrywiol ac yn ystyried gwaith blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru lle bo hynny'n berthnasol.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Andy Phillips**

**Ymyriadau Llywodraeth Cymru mewn llywodraeth leol**

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud defnydd cynyddol o'r dechneg hon er mwyn gwella safonau ymhlith cyrff cyhoeddus sy'n perfformio'n wael. Defnyddiwyd amrywiaeth o fodelau ymyrryd mewn ymateb i bryderon yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol a pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried gwerth am arian yr ymyriadau hyn ac egwyddorion arfer da, ond nid yw union gynnwys y gwaith wedi'i gadarnhau eto.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Alastair McQuaid**

**Ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio**

Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried, mewn modd cyffredinol, drefniadau llywodraethu corfforaethol Llywodraeth Cymru o ran ymateb i argymhellion archwilio. Bydd y gwaith hwn hefyd yn nodi a oes angen gwneud gwaith dilynol manylach mewn meysydd penodol ac yn asesu effaith yr argymhellion a wnaed yn fy adroddiadau blaenorol ac adroddiadau cysylltiedig gan y Pwyllgor.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Steve Ashcroft**

| Gwaith arall sy'n mynd rhagddo - amserlen gyhoeddi i'w chadarnhau o hyd |
|---|
| **Gwasanaethau rheilffyrdd**<br>Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried agweddau ar rôl Llywodraeth Cymru ym maes cynllunio a darparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru fel cyd-lofnodwr ag Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU ar gyfer Masnachfraint Rheilffyrdd gyfredol Cymru a'r Gororau a thrwy ei harian ar gyfer gwasanaethau ychwanegol a gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd. Fodd bynnag, nid yw union gynnwys yr astudiaeth hon wedi'i gadarnhau eto ac rwyf yn ymwybodol iawn o'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013 gan Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol, sef *Dyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau*.<br>**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee**<br>**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Matthew Mortlock** |

# Astudiaethau llywodraeth leol

| Cyhoeddiadau arfaethedig |
|---|
| **Trefniadau craffu**<br>Roedd y gwaith hwn yn cynnwys gweithgarwch ar y cyd mewn amser real a chydweithio â chynghorau lleol, hunanwerthuso a dysgu gan gymheiriaid er mwyn nodi i ba raddau y mae trefniadau herio a chraffu yn gweithredu'n effeithiol mewn llywodraeth leol ac er mwyn cefnogi gwelliant. Bydd yr adroddiad hwn, a fydd yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith lleol, yn adeiladu ar y gynhadledd 'Goleuni ar Graffu' a gynhaliwyd ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Tachwedd 2013.<br>**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris**<br>**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Huw Rees** |
| **Trefniadau i adolygu prosesau llywodraethu a pharatoi datganiadau llywodraethu blynyddol**<br>Mae gwaith archwilio lleol ym maes llywodraeth leol wedi ystyried p'un a yw cynghorau, wrth lunio datganiadau llywodraethu blynyddol, wedi gwerthuso effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu mewn modd cynhwysfawr a thrylwyr. Byddaf yn cyhoeddi adroddiad byr, ar ffurf nodyn arfer o bosibl, yn crynhoi'r prif themâu a gwersi sy'n deillio o'r gwaith hwn.<br>**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Jane Holownia**<br>**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Huw Rees** |
| **Cyflawni â llai - gwasanaethau iechyd yr amgylchedd**<br>Rwyf yn disgwyl mai'r astudiaeth hon fydd y gyntaf o blith cyfres o astudiaethau llywodraeth leol a fydd yn ystyried sut mae cynghorau yn parhau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol â llai o adnoddau. Mae'r astudiaeth hon, sy'n canolbwyntio ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd, yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgarwch gan gynnwys, er enghraifft, safonau tai, iechyd a diogelwch, diogelwch bwyd, diogelu'r amgylchedd, llygredd sŵn a rheoli plâu.<br>**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris**<br>**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Nick Selwyn** |

**Cyhoeddiadau arfaethedig**

**Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)**

Byddaf yn cyhoeddi dau adroddiad unigol ond ategol ar y pwnc hwn (adroddiad gwerth am arian ac adroddiad ar astudiaeth llywodraeth leol). Bydd yr adroddiad ar yr astudiaeth llywodraeth leol yn canolbwyntio ar waith cynghorau i leihau lefelau NEET a bydd yn ystyried a yw cynghorau mewn sefyllfa dda i alluogi pobl ifanc sy'n NEET, neu sy'n wynebu risg o fod yn bobl ifanc NEET, i gyflawni canlyniadau gwell.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Stephen Martin**

**Effaith diwygiadau lles ar dai cymdeithasol**

Mae'r astudiaeth llywodraeth leol hon yn ystyried a yw cynghorau mewn sefyllfa dda i reoli effaith diwygiadau lles ar dai cymdeithasol yng Nghymru mewn ffordd effeithiol. Wrth gyflawni'r astudiaeth hon, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio'n agos gyda Cartrefi Cymunedol Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Yn ogystal ag adroddiad cryno, bydd yr astudiaeth yn cyfrannu at ganfyddiadau gwaith ymchwil ar y cyd a ddefnyddir gan sefydliadau partner i fesur effaith dros amser.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Jane Holownia**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Nick Selwyn**

**Diogelu - trefniadau llywodraethu**

Bydd yr astudiaeth llywodraeth leol hon yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau sicrwydd ac atebolrwydd cynghorau ar gyfer sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â diogelu plant ar waith a'u bod yn cael eu dilyn. Nid yw'r astudiaeth hon yn adolygu arfer diogelu fel y cyfryw ond yn ystyried beth mae'r cynghorau eu hunain wedi'i wneud i gael sicrwydd bod eu trefniadau i gefnogi gwaith diogelu yn effeithiol.

**Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Jane Holownia**

**Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Nick Selwyn**